

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe  
**Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Iechyd Heb eu Cadarnhau**  
 a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023 12.45pm, drwy Zoom (llif fyw ar Youtube)

**Yn bresennol**

Emma Woollett	Cadeirydd
Mark Hackett	Prif Weithredwr
Steve Spill	Is-gadeirydd
Andrew Jarrett	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd
Christine Morrell	Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddor Iechyd
Darren Griffiths	Cyfarwyddwr Cyllid
Debbie Eytayo	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Gareth Howells	Cyfarwyddwr ar gyfer Nyrsio a Phrofiad y Claf
Keith Lloyd	Aelod Annibynnol
Keith Reid	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd
Jackie Davies	Aelod Annibynnol
Judith Vincent	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd
Maggie Berry	Aelod Annibynnol
Nuria Zolle	Aelod Annibynnol
Patricia Price	Aelod Annibynnol
Richard Evans	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Reena Owen	Aelod Annibynnol

**Hefyd yn bresennol:**

Anne-Louise Ferguson	Cynghorydd i'r Bwrdd (cyfreithiol)
Hazel Lloyd	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro
Inese Robotham	Prif Swyddog Gweithredu
Matt John	Cyfarwyddwr Digidol
Liz Stauber	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol
Karen Stapleton	Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth
Hazel Powell	Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Nyrsio a Phrofiad y Claf (tan gofnod 25/22)
Angharad Higgins	Pennaeth Ansawdd a Diogelwch (tan gofnod 25/22)

Rhif y Cofnod		Cam Gweithredu
16/23	<b>CROESO A CHYFLWYNIADAU</b>	
	Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Siân Harrop-Griffiths; Cyfarwyddwr Strategaeth; Nick Samuels, Cyfarwyddwr Cyfathrebu; Tom Crick; Aelod Annibynnol;	

	Sue Evans, Cyngor Iechyd Cymuned a Mwoyo Makuto, Cyngor Iechyd Cymuned .	
<b>17/23</b>	<b>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</b>	
	Nid oedd datganiadau o fuddiannau.	
<b>18/23</b>	<b>STORI'R CLAF</b>	
	<p>Derbyniwyd straeon yn nodi profiad teulu ac aelod o staff o'r gwasanaeth nyrsio cymunedol plant.</p> <p>Canolbwyntiodd y ddwy stori ar ofal Charlie, bachgen wyth oed gyda hyperglycinemia nonketotig ac mae angen arno ofal 24/7. Esboniodd y rhieni y gallai sgrechian am hyd at 30 awr ar y tro ac roedd yn anodd ei helpu gan nad oedden nhw yn gwybod beth oedd yn bod arno. Gwnaethon nhw gysylltu â'i nyrs gymunedol a drefnodd ofalwyr i ddarparu seibiant trwy'r gwasanaeth nyrsio cymunedol. Yn y dechrau, roedd nifer fawr o nyrsys yn edrych ar ôl Charlie, a allai olygu nyrs wahanol bob nos. Roedd hyn yn heriol iddo, felly cafodd ei leihau i uchafswm o 10 gofalwr gwahanol. Roedd yna ofalwr nad oedd yn addas ar gyfer y teulu a chafodd y gofalwr hwnnw ei ddisodli. Esboniodd y rhieni fod rhaid iddyn nhw frwydro am bopeth y mae ei angen arnynt ar gyfer Charlie ond roedd y staff yn fendigedig. Pwrpas y pecyn gofal oedd rhoi'r cyfle i'r rhieni ymlacio, felly roedd yn bwysig bod y gofalwyr yn bobl y teimlent yn gyfforddus y byddent yn gofalu am Charlie fel y byddent.</p> <p>Esboniodd Claire, un o staff nyrsio'r gwasanaeth nyrsio cymunedol plant, sut iddi hi ymuno â'r tîm tua 18 mis yn ôl, ar ôl yr adolygiad allanol. Roedd yn dîm toredig iawn pan gyrhaeddodd hi, gyda rhai o'r staff wedi gadael yn barod ac rhai eraill ar fin gadael. Roedd rhan o'r gwaith i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn yr adolygiad yn cynnwys ymweliadau misol i deuluoedd i weld sut oedd pethau. Un o'i theuluoedd oedd teulu Charlie, ac roedd ei rieni yn darparu'r rhan fwyaf o'i ofal. Roedd ganddyn nhw rai bryderon am un o'r gofalwyr, nad oeddent eisiau eu codi i ddechrau gan roedden nhw'n poeni y byddai'n golygu bydd y pecynnau gofal yn cael eu stopio. Nid yw'r gofalwr penodol hwnnw yn gofalu ar ôl Charlie bellach ac mae wedi ymgymryd â hyfforddiant pellach. Ar hyn o bryd, mae'r amgylchedd gartref yn cael ei osod gyda theclyn codi newydd a chydabu Claire fod y teulu wedi gorfod brwydro am bopeth roedden nhw ei angen. Roedd pawb yn y tîm yn canolbwyntio ar symud ymlaen a chafodd hyn ei adlewyrchu yn adborth y teulu a gydnabu fod yna newid positif.</p> <p>Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol:</p>	

	<p>Dyweddod Gareth Howells ei bod yn bwysig cydnabod pa mor bell oedd y gwasanaeth wedi dod. Roedd hwn yn wasanaeth yr oedd angen iddo feithrin perthnasau cryf, hirdymor gyda theuluoedd ond roedd angen cymorth ar staff gan y bu'r achosion yn gymhleth ac yn heriol.</p> <p>Dyweddod Andrew Jarrett fod amser sylweddol wedi'i dreulio mewn cyfarfodydd bwrdd yn dadansoddi ffigyrau, felly roedd yn braf gweld canlyniadau da gyda newid mewn diwylliant yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd a staff. Cytunodd Gareth Howells, gan dalu teyrnged i bennaeth y gwasanaeth, Vicki Burridge, a oedd wedi cwblhau gwaith da gyda'r tîm.</p> <p>Dyweddod Mark Hackett fod y ddwy stori yn deimladwy iawn a holodd am unrhyw adborth gan gleifion a theuluoedd ers i'r cynllun gweithredu wedi'i roi ar waith. Ymatebodd Gareth Howells fod pob nyrs gofrestredig wedi dilyn hyfforddiant ac roedd tua 50% o weithwyr cymorth gofal iechyd wedi'i gwblhau. Roedd rhaglen adborth 'Beth yw'r Sŵn' ar waith i staff ac roedd adolygiad allanol dilynol i'w gynnal o fewn y chwe mis nesaf. Roedd codau QR yn eu lle i deuluoedd ddarparu adborth yn hawdd a chafodd galwadau ffôn misol eu gwneud fel modd o wirio. Nid oedd gor-gyfathrebu yn bosibl o fewn y gwasanaeth ac roedd cyfraddau cwynion wedi gwella, gydag ychydig iawn o gwynion wedi'u derbyn. Roedd gwaith hefyd yn cael ei wneud gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i ddysgu o'i ardaloedd mamolaeth arweiniol ar beth i ganolbwyntio arno gan yr oedd y gwasanaeth hwnnw hefyd wedi derbyn graffu allanol.</p>	
<b>Penderfyniad:</b>	Dylid <b>nod</b> stori'r claf.	
<b>19/23</b>	<b>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</b>	
	Roedd cofnodion y cyfarfod ar 24 Tachwedd 2022 wedi'u <b>derbyn</b> a'u <b>cymeradwyo</b> fel cofnod gwir a chywir.	
<b>20/23</b>	<b>MATERION YN CODI</b>	
	Ni chodwyd unrhyw faterion.	
<b>21/23</b>	<b>COFNOD GWEITHREDU</b>	
	<b>Derbyniwyd a nodwyd</b> y cofnod gweithredu.	

22/23	<b>ADRODDIAD Y CADEIRYDD</b>	
	<p><b>Derbyniwyd</b> diweddariad gan y Cadeirydd am weithgareddau diweddar ar lafar.</p> <p>Wrth gyflwyno'r diweddariad, tynnodd Emma Woollett sylw at y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cafodd y lefel o bwysau gweithredu sylweddol ei chydabod ond er gwaethaf hyn, parhaodd i dderbyn llythyrau canmoliaeth ar gyfer staff. Rhoddwyd diolchiadau ar ran y bwrdd i staff am eu hymdrechion parhaus dros y misoedd diweddar;</li> <li>- Roedd canoli gwasanaethau meddygol aciwt yn Ysbyty Treforys yn gwneud gwahaniaeth gyda pherfformiad gofal brys ac argyfwng;</li> <li>- Derbyniwyd sêl bendith weinidogaethol ar gyfer ymgeisydd aelod annibynnol lwyddiannus yr awdurdod lleol a chafodd cyfweiliadau eu trefnu am y ddwy rôl aelod annibynnol eraill sydd angen eu disodli eleni;</li> <li>- Bydd gweithwyr newydd yn cael eu recriwtio'n fuan ar gyfer y Cyfarwyddwr Strategaeth a'r Prif Swyddog Gweithredu gan fod deiliaid y swydd presennol yn gadael y sefydliad.</li> <li>- Bydd y recriwtio ar gyfer aelodau annibynnol a chyfarwyddwyr newydd yn gyfle i ystyried cydbwysedd sgiliau, profiad a phersonoliaethau ar draws y bwrdd;</li> <li>- Fel Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, mynychodd uwchgynhadledd gyda Llywodraeth Cymru yn edrych ar oedi wrth ryddhau cleifion a'r effaith ar ofal cartref a chytunwyd i gynnal cyfarfod rhwng y bwrdd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i edrych ar gamau gweithredu ar gyfer dyfodol cynaliadwy;</li> <li>- Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd cenedlaethol i edrych ar gamddefnydd o sylweddau, lle cynrychiolwyd y bwrdd iechyd, i edrych ar newidiadau gwasanaeth er mwyn gwella canlyniadau.</li> </ul>	
<b>Penderfyniad:</b>	Dylid <b>nodi'r</b> adroddiad.	
23/23	<b>ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR</b>	
	<b>Derbyniwyd</b> adroddiad yn nodi diweddariad gan y Prif Weithredwr am weithgareddau diweddar.	

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Mark Hackett sylw at y pwyntiau canlynol:

- Bu'n bwysig cydnabod yr effaith o bwysau gweithredu a'r gwytnwch a ddangoswyd gan staff – roedd rhaid i'r ymdrech i gefnogi staff i ddarparu'r gofal yr ydynt wedi'u hyfforddi i'w wneud barhau.
- Un o'r prif ddulliau i fynd i'r afael â pherfformiad gofalbrys ac argyfwng oedd canoli gwasanaethau meddygol aciwt yn Ysbyty Treforys. Roedd gweithredau eraill yn cynnwys rhyddhau â chymorth ar gyfer cleifion sydd â thoriadau nad ydynt yn rhai llawfeddygol ac yn parhau i ehngu'r wardiau rhithwir a'r tîmau cymunedol aciwt;
- Roedd tasglu a oedd yn adrodd i'r Prif Weithredwr wedi'i sefydlu i ganolbwyntio ar ryddhau 120 o welyau ychwanegol dros dro yn Ysbyty Singleton ac roedd yn y broses o osod amserlenni i leihau'r gwelyau ychwanegol;
- Roedd gweithio mewn partneriaeth yn digwydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i wella staff wedi'i hyfforddi a gwneud gweithgareddau penodol i ryddhau'r staff nyrsio cymwysedig. Yn ychwanegol, roedd mwy o gastroenterolegwyr yn cael eu penodi. Roedd y pwyslais ar ddatrysiad rhanbarthol a fydd yn denu adnoddau Llywodraeth Cymru;
- Roedd trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal rhwng y ddau fwrdd iechyd ar sut i rannu mwy o gapasiti, o bosib drwy ddarparu'r annibynnol, i leihau amseroedd aros i wyth wythnos (dyma oedd y sefyllfa gyfredol ar gyfer cleifion canser dan amheuaeth);
- Roedd y gweithlu wedi aros fel yr her fwyaf o fewn iechyd ond roedd yr ymdrechion recriwtio rhynglwadol yn talu ar ei ganfed, gyda bwriad i recriwtio 350 yn 2022-23. Roedd nifer wedi cyrraedd yn ddiweddar o India yn gweithio mewn theatrau a wardiau. Roedd proses recriwtio rhynglwadol bellach wedi'i chynllunio ar gyfer 2023-24 ochr yn ochr â rhaglen ehangu nyrsio ar gyfer staff sydd heb eu cofrestru.

Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol:

Dywedodd Nuria Zolle roedd canser yn ardal o bryder parhaus, yn enwedig gynaeoleg, a holodd am beth all ei ddisgwyl o'r cynllun gweithredu. Ymatebodd Mark Hackett fod y pryderon o fewn gynaeoleg ar ddechrau'r llwybr, er enghraifft, gweld cleifion gyda gwaedu ôl-fenoposaidd yn ddigon cyflym. Os oedd y capasiti yn gallu cael ei mesur yn gywir, bydd hyn yn helpu gyda diagnosis a thriniaeth. Ychwanegodd, er bod yna faterion gweithlu, nid oedd yr her yn galw am atgyfeiriad, ond yn hytrach i gael pobl i ddiagnosis yn gyflym. Roedd hyn yn cael ei

gymryd ymlaen gan adolygu'r rôl gyffredinol oedd gan gynaeolegwyr ac yn defnyddio gynaeolegwyr arbenigol am achosion cymhleth.

Argymheloedd Mark Hackett, yn gyffredinol, fod y llwybr canser yn heriol gan fod mwy o bobl yn cyflwyno'n hwyrach oherywdd oedi Covid ac roedd hyn yn gwneud triniaeth yn fwy cymhleth nag y buasai pe bai'r canser wedi'i adnabod yn gynharach. Argymheloedd Richard Evans fod canolfan ddiagnosis gyflym Ysbyty Castell-nedd Port Talbot i'w hystem yn 2023-24 i gynnwys y rhai a atgyfeiriwyd gyda chanser y coluddyn posibl. Bydden nhw'n cael eu gweld, eu diagnosis ac os oedd angen, yn cael cynllun triniaeth, o fewn 48 awr o gael eu gweld.

Cydnabu Emma Woollett y gweithredu sylweddol sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael ag amseroedd aros canser ond nododd, er gwaethaf yr ymdrechion, dim ond un arbenigedd oedd yn cyrraedd y targed o 80% ar hyn o bryd. Er cydnabuwyd nad oedd y safle yn unigryw i'r bwrdd iechyd, awgrymodd hi fod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod bwrdd Mawrth 2023 gan osod cynllun gweithredu am ganser ar safle tiwmor yn ôl sail safle tiwmor. Cytunwyd ar hyn.

**CAM GWEITHREDU - adroddiad i gael ei dderbyn yn yng nghyfarfod bwrdd Mawrth 2023 gan osod cynllun gweithredu am ganser ar safle tiwmor yn ôl sail safle tiwmor.**

Dywedodd Nuria Zolle ei bod yn bleser gweld gweithrediad yn cael ei cymryd o amgylch endosgopi a holodd a oedd penderfyniadau amserol yn cael ei wneud. Dywedodd Mark Hackett fod buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud i leihau'r amser aros yn endosgopi i wyth wythnos ar gyfer atgyfeiriadau canser brys. Y cam nesaf oedd i leihau amseroedd aros endosgopi nad oeddent yn ganser. Fodd bynnag, ni allai'r bwrdd iechyd fod wedi gwneud hyn ar ei ben ei hun a pharhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel oherwydd y galw a'r cyfyngiadau ar gapasiti. Roedd datrysiad rhanbarthol hefyd yn gallu golygu cymorth posibl o ran ennill adnoddau ychwanegol ond roedd angen adolygiad mewnol ar sut i ddefnyddio'r dyraniad presennol ar gyfer 2023-24.

Cododd Nuria Zolle bryder am y blinder posib o staff a gofynodd beth oedd ar waith i atal hyn. Cytunodd Pat Price, gan ychwanegu bod y gweithle yn un o'r heriau fwyaf o sut roedd gwasanaethau yn cael eu darparu. Argymheloedd Debbie Eyitato nad yw'r pwysau a'r amgylcheddau gweithio presennol yn gallu cael eu tanbriso, gyda staff yn gwneud eu gorau glas. Yn ychwanegol, gan fod y rhan fwyaf o'r staff yn rhan o'r boblogaeth leol, cawsant eu heffeithio gan gyfraddau uchel y feirws anadlol sy'n arwain at absenoldebau salwch. Mae'r 'Sgwrs Fawr', sef gweithgaredd gwrando staff, ar y gweill ar hyn o bryd, gydag un wedi'i gwblhau yn ddiweddar, yr oedd y data'n cael ei ddadansoddi ar ei gyfer ar hyn o bryd. Cynhaliwyd sesiwn ar gyfer aelodau'r bwrdd ym mis Mawrth i rannu'r manylion. Roedd yna negeseuon clir gan staff am beth

IR

	<p>maen nhw ei angen, ac roedd gwaith yn parhau gyda rheolwyr llinell i adnabod pa bethau a allai gael eu rhoi ar waith yn gyflym. Roedd storio yn fater allweddol yr oedd angen mynd i'r afael ag ef, ac roedd gwaith yn cael ei wneud ar lefel gendlaethol gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar sut i gefnogi'r gweithlu'n well. Bu'r gwaith newydd ei gychwyn felly roedd grŵp storio hefyd wedi'i sefydlu a oedd wedi darparu data trosiant i Bwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol i ddangos ble roedd angen i recriwtio a storio fod yn ffocws. Cafodd Iechyd Galwedigaethol ei ddatblygu i dîm amlddisgyblaethol a alluogodd iddo ddarparu amrywiaeth o ymyriadau. Roedd hyfforddiant trawma 'TRiM' hefyd mewn lle ac roedd cymorth llesiant wedi'i ehangu. Yn olaf, roedd y 'Sgwrs Fawr' wedi cydnabod bod cymorth seicolegol yn gritigol ac roedd tîm yn cael ei roi ar waith i helpu rheolwyr llinell i weithio gyda staff sydd ar absenoldeb salwch i gefnogi dychwelyd cynharach gyda mesuriadau priodol ar waith. Awgrymodd Mark Hackett, wrth ystyried pwysigrwydd y gweithlu, cafodd adroddiad chwarterol ar yr hyn oedd yn cael ei wneud i gefnogi gwytnwch ei gyflwyno i'r bwrdd. Cytunwyd ar hyn.</p> <p><b>CAM GWEITHREDU - adroddiad chwarterol i'w gyflwyno i'r bwrdd, yn dechrau ym mis Mawrth 2023.</b></p> <p>Gofynnodd Nuria Zolle am fwy o fanylion ar beth oedd y cynllun 'Baywatch' yn cynnwys. Cynghorodd Hazel Powell fod cleifion yn cael eu hasesu o ran risg wrth iddynt gael eu derbyn ar gyfer cwmpïadau, a siaredir ag unrhyw gleifion sy'n wynebu risg uchel am unrhyw gymhorthion posibl i'w cefnogi. Yn ychwanegol, fe'u carfanwyd hwy yn yr un bae gydag adnoddau dynodedig i ddarparu cymorth i helpu iddyn nhw osgoi cwmpïadau, er enghraifft gan fod yn barod i'w helpu nhw i fynd i'r tŷ bach. Daeth y syniad o staff ei hun ac roedd potensial i ddefnyddio gwirfoddolwyr i gefnogi'r cynlluniau i ryddhau staff.</p>	DE
<p><b>Penderfyniad:</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Dylid <b>nodi'r</b> adroddiad.</li> <li>- Adroddiad i gael ei dderbyn yn y cyfarfod bwrdd Mawrth 2023 gan osod cynllun gweithredu am ganser ar safle tiwmor yn ôl sail safle tiwmor;</li> <li>- Adroddiad chwarterol i'w gyflwyno i'r bwrdd, yn dechrau ym mis Mawrth 2023.</li> </ul>	IR DE
<p><b>24/23</b></p>	<p><b>STRATEGAETH ANSAWDD Y BWRDD IECHYD</b></p>	
	<p><b>Derbyniwyd</b> adroddiad yn nodi strategaeth ansawdd y Bwrdd Iechyd. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Angharad Higgins sylw at y pwyntiau canlynol:</p>	

- Mae'r strategaeth ansawdd yn cwmpasu 2023-28 ac yn gosod ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ansawdd;
- Roedd gwella ansawdd yn flaenoriaeth allweddol;
- Roedd lefel uchel o ymgysylltu wedi digwydd wrth ddatblygu'r strategaeth i sicrhau ei bod yn ddigon uchelgeisiol a bod ganddi'r strwythurau a blaenoriaethau cywir;
- Roedd gofal sy'n canolbwyntio ar gleifion yn gritigol yn ogystal â chael allfa y gallai staff godi llais drwyddi ochr yn ochr â systemau llywodraethu cadarn i sicrhau canlyniadau a chynaliadwyedd;
- Roedd gan y strategaeth bedair uchelgais, ac roedd gan bob un ohonynt gynllun gweithredu:
  - Darparu gofal diogel a dibynadwy;
  - Sefydliad y mae ein cymunedau a'n cleifion yn falch ohono;
  - Grymuso staff;
  - Gwasanaethau ansawdd uchel a hygyrch nawr ac yn y dyfodol.
- Mae blaenoriaethau ansawdd presennol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys gofal diwedd oes, cwmpadau, atal hunanladdiad, sepsis a rheoli heintiau. Bydd y rhain yn parhau i mewn i 2023-24 ond mae rhai ychwanegol yn y broses o gael eu cytuno.
- Byddai cynllun gweithredu ar gyfer strategaeth yn cael ei gytuno erbyn Chwefror 2023 a bydd y strategaeth ei hun yn cael ei lawnsio ar Fawrth 2 2023 wedi'i ategu gan gynllun cyfathrebu;
- Bydd cynnydd yn cael ei adrodd yn fisol i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ac yn flynyddol trwy'r datganiad ansawdd blynyddol;
- Roedd gwaith yn parhau i sefydlu system rheoli ansawdd a sut bydd hon yn treiddio trwy'r wardiau.

Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol:

Dywedodd Reena Owen fod hon yn ddogfen bwysig iawn am y Bwrdd Iechyd ac yn holi sut bydd perchnogaeth y strategaeth yn cael ei sicrhau, er enghraifft trwy brif amcanion i adeiladu a chyflawni'r uchelgais.

Ymatebodd Angharad Higgins fod gwneud strategaeth yn 'fyw' o fewn timoedd yn allweddol gan y byddai ymgysylltu yn gyrru llwyddiant.

Ychwanegodd Debbie Eyitayo wrth i'r bwrdd osod ei amcanion ei hun, byddai'r rhain yn cael eu hanfon drwy'r sefydliad i yrru ffocws ansawdd.

Dywedodd Anne-Louise Ferguson fod y cyflwyniad yn ddefnyddiol o ran gosod allan y cerrig milltir ond holodd sut y byddai'n hysbys pryd y byddent wedi'u cyflawni. Cynghorodd Darren Griffiths fod nifer o'r elfennau gwelliant yn alinio gyda'r adroddiad perfformiad ac roedd yn gyfle i alinio'r ymagweddau ac i ddatblygu adroddiad ansawdd

	<p>perfformiad. Cytunodd Emma Woollett, gan ychwanegu y bydd hyn yn helpu i yrru agenda'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.</p> <p>Dywedodd Steve Spill fod cynydd sylweddol wedi'i wneud, a byddai'r ardal y mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch eisiau canolbwyntio arni yn ddiwylliant a pherchnogaeth ar draws y gweithlu cyfan. Ychwanegodd ef, unwaith y bydd rhaglen fonitro ar gyfer canlyniadau, profiad a diogelwch mewn lle ym mhob adran a chyfarwyddiaeth, byddai hyn yn darparu cyfleoedd i wybod sut mae pob gwasanaeth o fewn lleoliadau ysbyty yn gweithio, ond byddai'n fwy heriol i wneud hyn ar gyfer gwasanaethau cymunedol, a dyma yw beth y byddai'r pwyllgor am ei gyflawni.</p> <p>Dywedodd Richard Evans fod yna nifer o themâu a diffiniadau amrywiol ar beth yw ansawdd a bod hyn yn rhan allweddol o drafodaethau'r 'Sgwrs Fawr' i glywed gan staff beth mae ansawdd yn golygu iddyn nhw a sut i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin.</p> <p>Cynghorodd Mark Hackett ei bod yn bwysig i osod nodau realistig yn flwyddyn un a mecanwaith gweithredu wedi'i ystyried yn ofalus er mwyn dod yn sefydliad dysgu sy'n canolbwyntio ar welliant, gan gynnwys staff, gyda ffyrdd i raeadru'r gwaith trwy gydol y sefydliad. Byddai cynllunio effeithiol a threfniadau llywodraethol yn cael eu sefydlu i sicrhau'r gweithredu a oedd yn cymryd lle ar draws yr holl ardaloedd o fewn cylch gwaith y bwrdd iechyd. Ar gyfer gwasanaethau sydd â chytundeb cenedlaethol neu annibynnol, bydd angen cynllun gweithredu amgen. Ychwanegodd fod y gwaith i greu system rheoli ansawdd yn gwneud cynnydd da, ac roedd gobaith y byddai'r grŵp gorchwyl a gorffen ar waith i gynorthwyo'r gwaith yn cael ei ddaduno ym Mawrth 2023 a bydd y gwaith yn dod yn brif ffrwd.</p>	
<p><b>Penderfyniad:</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Dylid <b>nodi'r</b> adroddiad;</li> <li>- <b>Derbyniwyd</b> y strategaeth a'r amserlenni drafft ar gyfer datblygu cynllun gweithredu ategol;</li> <li>- Dylid <b>cymeradwyo</b> bod y Cyfarwyddwr ar gyfer Nyrsio a Phrofiad y Claf yn dod yn arweinydd gweithredol ar gyfer ansawdd ac yn bwrw ymlaen â gweithredu'r strategaeth o fewn y bwrdd iechyd.</li> </ul>	<p>-</p>
<p><b>25/23</b></p>	<p><b>DERBYN ADRODDIAD CYNNYDD AM Y CYNLLUN GWEITHREDU MEWN YMATEB I'R ADOLYGIAD GWASANAETH NYRSIO CYMUNEDOL AR GYFER PLANT</b></p>	<p>-</p>
	<p>Derbyniwyd adroddiad cynnydd am y cynllun gweithredu mewn ymateb i'r adolygiad gwasanaeth nyrsio cymunedol ar gyfer plant.</p> <p>Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Gareth Howells sylw at y pwyntiau canlynol:</p>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Dilynodd yr adroddiad o stori'r claf;</li> <li>- Roedd diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ac roedd cynnydd sylweddol yn cael ei wneud;</li> <li>- Cytunwyd y byddai adolygiad dilynol yn cael ei wneud, a bod pob teulu wedi anfon llythyrau yn eu cynghori nhw am hyn;</li> <li>- Byddai'r Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn parhau i dderbyn diweddariadau gan nad oedd eto ar bwynt i gamu lawr y gwaith o fonitro cynnydd.</li> </ul> <p>Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol:</p> <p>Nododd Jackie Davies er bod 100% o nyrsys cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant, roedd y nifer o weithwyr cymorth gofal iechyd dipyn yn llai. Ychwanegodd fod amserlenni mewn lle i gyflawni 75% o hyn ar gyfer y grŵp staff hwn, a holodd pryd y byddai'n cyrraedd 100% wrth ystyried eu bod yn gweithio mewn ynysiad ac o hynny, yn weithwyr bregus. Ymatebodd Gareth Howells ei fod yn cael ei gydnabod bod y gwasanaeth yn cynnwys gweithwyr cymorth gofal iechyd yn bennaf ond bod llawer o drosiant wedi bod o fewn y gweithlu, a dyna pam roedd y gydymffurfiaeth hyfforddiant yn is. Byddai 100% wedi'i chyflawni erbyn diwedd chwarter pedwar.</p> <p>Dywedodd Mark Hackett fod y mecanweithiau ar waith ar gyfer dal profiadau teuluoedd yn greadigol ac roedd angen ystyriaeth am sut i ehangu'r rhain yn ehangach i wella canlyniadau. Diolchodd i Gareth Howells am ei waith fel arweinydd gweithredol yn y maes hwn gan ei fod yn wasanaeth gwahanol iawn i'r hyn yr oedd 18 mis yn ôl. Roedd yr arweinyddiaeth effeithiol ar waith ar gyfer y gwasanaeth yn arwain at wahanol agweddau ac ymddygiadau ar draws y tîm. Cytunodd Emma Woollett, gan ychwanegu bod yna ddau wasanaeth yn yr 18 mis diwethaf yr oedd adolygiadau allanol wedi codi pryderon amdanynt – sef y tîm nyrsio cymunedol plant a'r tîm llawfeddygol cardiaidd. Roedd yn bwysig dysgu'r gwersi o'r rhain ac yn cymhwyso'r arfer da sydd bellach ar waith yn gyffredinol. Nododd ei bod hi wedi ymweld â'r tîm nyrsio cymunedol plant pan gyhoeddwyd yr adolygiad i ddechrau ac aeth ati i gael ymweliad dilynol.</p> <p><b>CAM GWEITHREDU – trefnir ymweliad er mwyn i'r Cadeirydd ymweld â'r tîm nyrsio cymunedol plant.</b></p>	GH
Penderfyniad	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Dylid <b>nodi'r</b> adroddiad;</li> <li>- Trefnir ymweliad er mwyn i'r Cadeirydd ymweld â'r tîm nyrsio cymunedol plant.</li> </ul>	GH

26/23	<b>MATERION ALLWEDDOL GAN BWYLLGORAU'R BWRDD</b>	
	<p>(i) <u>Pwyllgor Perfformiad a Chyllid</u>  <b>Derbyniwyd a nodwyd</b> adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol cyfarfod diweddar y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid.</p> <p>(ii) <u>Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch</u>  <b>Derbyniwyd a nodwyd</b> adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol cyfarfod diweddar y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.          Cyngorodd Steve Spill fod aelodau wedi clywed bod cyfanswm y targed blynyddol ar gyfer achosion rheoli haint eisoes wedi'u torri erbyn chwarter tri yn y cyfarfod gynharach yn yr wythnos (24 Ionawr 2023). Roedd ymdrech sylweddol yn cael ei gwneud i leihau'r niferoedd, a byddai hyn yn aros yn faes y bydd angen cadw llygad barcud arno ar gyfer y pwyllgor.</p> <p>(iii) <u>Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol</u>  <b>Derbyniwyd a nodwyd</b> adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol cyfarfod diweddar y Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.</p> <p>(iv) <u>Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl</u>  <b>Derbyniwyd a nodwyd</b> adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol cyfarfod diweddar y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl.</p> <p>(v) <u>Y Pwyllgor Archwilio</u>  <b>Derbyniwyd a nodwyd</b> adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol cyfarfod diweddar y Pwyllgor Archwilio.</p> <p>(vi) <u>Pwyllgor Cronfeydd Elusenol</u>  <b>Derbyniwyd a nodwyd</b> adroddiad yn nodi trafodaethau allweddol cyfarfod diweddar y Pwyllgor Cronfeydd Elusenol.</p>	
27/23	<b>ACHOS BUSNES GOFAL CRITIGOL LLOSGIADAU</b>	
	<p><b>Derbyniwyd</b> achos busnes yn nodi gofa critigol llosgiadau.          Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Darren Griffiths sylw at y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cafodd yr achos busnes ei rannu yn anffurfiol mewn sesiwn frifio aelodau annibynnol i esbonio'r manylion;</li> </ul>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Roedd uned gofal llosgiadau critigol y Bwrdd Iechyd wedi'i lleoli i ffwrdd o'r uned gofal dwys gyffredinol, a oedd yn wahanol i'r tair canolfan eraill ar draws y DU;</li> <li>- Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd recriwtio a chadw'r lefelau gofynnol o anesthetyddion ac ym mis Hydref 2021, caewyd yr uned i gleifion dros dro;</li> <li>- Roedd adolygiad annibynnol gan y rhwydwaith datblygu gweithredol am y gwasanaeth llosgiadau wedi awgrymu integreiddio'r ddau wasanaeth gofal dwys. Bydd angen i hyn gael ei gwblhau mewn nifer o gamau a fydd yn costio hyd at £40m mewn buddsoddiad cyfalaf.</li> <li>- Ymatebwyd i'r galw gan yr uned gofal dwys i gefnogi'r gwasanaeth dros dro wrth i'r trefniadau gael eu gwneud i gydleoli'r gwasanaeth yn yr uned gofal dwys gyffredinol;</li> <li>- Byddai'r gwaith am hyn mewn dau gam ac roedd hyn yn gyfiawnhad busnes ar gyfer cam 1 a fydd yn creu datrysiad cyd-leoli dros dro;</li> <li>- Byddai camau dilynol y strategaeth gyfalaf llosgiadau yn cael eu datblygu fel achosion busnes penodol i ddod i'r bwrdd.</li> </ul>	
<p><b>Penderfyniad:</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Dylid <b>nodi'r</b> adroddiad;</li> <li>- Dylid <b>cytuno</b> ar y buddsoddiad strategol a chyfalaf o £7.3m i'w ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cam 1 yr adfywiad o'r gwasanaeth llosgiadau.</li> <li>- Dylid <b>cymeradwyo'r</b> achos cyfiawnhad busnes a'r cyflwyniad dilynol i Lywodraeth Cymru am ystyriaeth yn erbyn rhaglen gyfalaf Cymru Gyfan.</li> </ul>	
<p><b>28/23</b></p>	<p><b>ACHOS BUSNES PORTFFOLIO AR GYFER CANOLFAN CANCER DE-ORLLEWIN CYMRU</b></p>	
	<p><b>Derbyniwyd</b> achos busnes portffolio ar gyfer Canolfan Cancer De-Orllewin Cymru.</p> <p>Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Karen Stapleton sylw at y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Roedd y ganolfan wedi ei phenodi'n llwyddiannus gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i ddarparu triniaeth orffracsiynol ar gyfer cancer y fron a chanser y brostad;</li> </ul>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddai angen cyflymydd llinellol ychwanegol yn ystod y tair blynedd nesaf, yn unol â rhaglen amnewid Llywodraeth Cymru a byddai hyn yn cael sylw mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mewn lle y byddai o fudd i'w boblogaeth;</li> <li>- Roedd cynllun newydd 10 mlynedd mewn lle ar gyfer y cyflymydd llinellol ac roedd angen capasiti CT ychwanegol ochr yn ochr â hyn. Roedd yr achos refeniw ar gyfer y rhain yn cael ei drefnu;</li> <li>- Roedd yna nifer o safleoedd tiwmor gyda lefel uchel o gleifion allanol ac roedd angen model gweithlu cynaliadwy, gan uchafu'r tîm amlddisgyblaethol llawn;</li> <li>- Byddai'r cynllun rhanbarthol yn cael ei rannu â Llywodraeth Cymru.</li> </ul> <p>Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol:</p> <p>Dywedodd Mark Hackett ei bod yn bwysig bod Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Phrifysgol Hywel Dda yn rhan o'r achos yn nodi'r lefel gywir o gyllid sylfaenol i'w symud ymlaen. Roedd angen cynllun tymor hwy ar gyfer datblygu Ysbyty Singleton i gefnogi darpariaeth oncoleg nad yw'n llaefeddygol a datbygiad oncoleg lawfeddygol yn Ysbyty Singleton yr oedd y Bwrdd Rheoli yn ei ystyried.</p> <p>Holodd Nuria Zolle a oedd asesiad effaith cydraddoldeb wedi'i gwblhau i benderfynu ar effaith y cynigion ar y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig. Ymatebodd Mark Hackett fod y tîm craffter, cyfathrebu ac ymgysylltu i weithio gyda'r tîm strategaeth ar yr ymgysylltu oedd ei angen gyda'r cyhoedd ynghylch y cynigion. Ychwanegodd Karen Stapleton fod trafodaethau wedi'u cynnal yn barod gyda'r cyngor iechyd cymuned a'r cam nesaf fyddai'r asesiadau effaith cydraddoldeb.</p> <p><b>CAM GWEITHREDU - tîm cyfathrebu ac ymgysylltu i wethio gyda'r tîm strategaeth ar yr ymgysylltu sydd ei angen gyda'r cyhoedd ynghylch y cynigion ar gyfer achos rhaglen strategol Canolfan Canser De-Orllewin Cymru.</b></p>	NS
<p><b>Penderfyniad:</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Dylid <b>cymeradwyo</b> achos rhaglen strategol Canolfan Canser De-orllewin Cymru i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru- yn amodol ar gymeradwyaeth gyfatebol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 26 Ionawr 2023;</li> <li>- Dylid <b>cytuno</b> bod gwaith ar fforddiadwyedd a galw hirdymor, a bod y gwaith o ddadansoddi capasiti'r modelau arfaethedig yn cael ei wneud yn y misoedd sydd i ddod;</li> <li>- Dylid <b>cytuno</b> bod effaith yr ystadau / rhwydwaith mewnol i safle Ysbyty Singleton yn cael eu trefnu a'u cynnwys yn natblygiad parhaus strategaeth ystadau'r Bwrdd Iechyd;</li> </ul>	

	<p>- Dylai'r tîm cyfathrebu ac ymgysylltu weithio gyda'r tîm strategaeth ar yr ymgysylltu sydd ei angen gyda'r cyhoedd ynghylch y cynigion ar gyfer achos rhaglen strategol Canolfan Canser De-Orllewin Cymru.</p>	<b>NS</b>
<b>29/23</b>	<b>DATBLYGIAD CTCI 2023-26</b>	
	<p><b>Derbyniwd</b> adroddiad ar ddatblygiad CTCI 2023-26.</p> <p>Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol:</p> <p>Dyweddodd Darren Griffiths fod y dyraniad ariannol ar gyfer 2023-24 yn y broses o gael ei drefnu. Roedd codiad craidd o 1.5% sef tua £11m ond roedd y pwysau chwyddiant tua 8%. Daeth cadarnhad y byddai'r wobwr gyflog yn cael ei hariannu. Roedd y rhagolygon ariannol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn eithriadol o heriol ac roedd angen targed cychwyn realistig gyda dewisiadau i'w gwneud er mwyn i'r cynllun gael ei gyflawni.</p> <p>Dyweddodd Pat Price ei bod yn braf gweld y gwaith yn cael ei wneud ynghylch blaenoriaethu clinigol ond roedd yn cydnabod y byddai gormod o dargedau haen un i gyfeirio atyn nhw. Holodd am sut bydd y tîm gweithredol yn blaenoriaethu ar sail risg uchel a pherfformiad isel. Cytunodd Darren Griffiths fod angen dull sydd wedi'i dargedu, yn enwedig gan fod elfennau o aneffeithlonrwydd ar draws y bwrdd iechyd a bod y rhain yn cynyddu costau'n bellach. Roedd mwy o waith eto i'w wneud i adolygu llwybrau modelau gwasanaeth a meysydd eraill fel gofal iechyd parhaus i leihau gwariant.</p> <p>Mynegodd Pat Price bryder ei bod yn ymddangos nad oedd y dyraniad ar gyfer 2023-24 yn cael ei danariannau rhwng £50m a £100m a byddai mwy o ofyniad arbedion ar y gwrpiau gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn yn rhy heriol i'w gyflawni. Ymatebodd Darren Griffiths a oedd y dyraniad wedi'i ystyried yn ystod ynysiad, roedd yn heriol, ond o bosib roedd mwy o arian yn y system a allai ddod ar gael wrth i'r flwyddyn fynd ymlaen, er enghraifft yr ariannu ar gyfer y wobwr gyflog, £15m am ofal wedi'i gynllunio, £19m. Roedd hefyd yna ardaloedd eraill t gallai'r Bwrdd Iechyd dargedu'n fewnol fel rhan o'i uchelgeisiau. Roedd gwaith yn parhau yn Ysbyty Treforys i leihau ei raddfa redeg a byddai'r dysgu o hyn wedyn yn cael ei ddefnyddio ar draws grwpiau gwasanaethau eraill i edrych am gyfleoedd tebyg. Roedd y tîm cyllid yn parhau i edrych am gyfloedd i gau'r bylchau yn y dyraniad.</p> <p>Darparodd Reena Owen sicrwydd bod y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid wedi adolygu'r dyraniad cyllid am 2023-24 yn fanwl ac roedd hyn wedi darparu dealltwriaeth o safle'r Bwrdd Iechyd o'i gymharu ag eraill.</p> <p>Fe wnaeth Mark Hackett gydnabod bod y bwrdd yn gofyn i'r tîm gweithredol i ganolbwyntio ar yr adrannau o'r raddfa redeg sydd o fewn</p>	

	<p>ei reolaeth. Nododd fod y Cyfarwyddwr Gwella Cyllid sydd wedi comisiynu i weithio gydag Ysbyty Treforys wedi cydnabod nifer o gyfleoedd i ganolbwyntio arnynt. Mae'r angen i wneud y Bwrdd Iechyd yn fwy effeithlon wedi pwysleisio ymhellach yr angen a nodwyd yn nogfen 'Newid ar gyfer y Dyfodol' i arloesi a thrawsnewid gwasanaethau trwy fuddsoddi digidol a modelau'r gweithlu newydd i greu cynaliadwyedd. Roedd angen canllawiau a barn broffesiynol ar gyfer defnyddio staff banc a staff asiantaeth yn ogystal â newidiadau i fodelau gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol i ddarparu mwy allan o ofal ysbytai a hwyluso mwy o ryddhau cleifion i leihau nifer y cleifion sydd wedi'u hoptimeiddio'n glinigol. Ni ddylai dibyniaeth gael ei rhoi ar systemau hanesyddol ar gyfer gwella ariannol gan nad oedden nhw yn gweithio fel y dylen nhw bellach ac nid oedd gwasanaethau ar eu gorau posib. Roedd angen mwy o atebion pan-Cymru a gweithio mewn partneriaeth agosach gyda dulliau cyson gan fod y raddfa o welliant ariannol yn ormod i Fyrddau Iechyd eu rheoli ar sail unigol. Roedd angen buddsoddi mewn mannau canolog ar gyfer ansawdd a diogelwch gwasanaethau cleifion.</p> <p>Dywedodd Steve Spill fod pwrpas y CTCI oedd adennill ar ddiwedd y tair blynedd, felly holwyd a oedd potensial i un o'r blynyddoedd fod yn ddiffyg, cyn belled â'i bod yn cael ei hadfer. Ymatebodd Mark Hackett fod disgwyliad os yw'r bwrdd Iechyd y gorffen y flwyddyn mewn safle diffyg, yna byddai'n adfer erbyn diwedd y tair blynedd.</p> <p>Cynghorodd Karen Stapleton, dros yr wythnosau nesaf, y byddai'r tîm gweithredol yn ystyried y priif flaenoriaethau ar gyfer y cynllun a'r gwaith parhaus gyda chlystyrau gofal sylfaenol i ddatblygu cynlluniau integredig a sicrhau bod y blaenoriaethau wedi'u halinio.</p> <p>Pwysleisiodd Emma Woollett bwysigrwydd bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r hyn y mae wedi ymrywmo i'w gyflawni yn ei gynllun. Pwysleisiodd hefyd fod angen canolbwyntio ar beth sydd o fewn ei reolaeth. Roedd angen am realaeth, yn enwedig o ran y rhagolygon ariannol heriol ac roedd angen dyheuadau gonest. Roedd angen dewder o ran dyrannu adnoddau ac roedd angen i'r sefydliadau fod yn amlwg wrth wneud dewisiadau, gan sicrhau bod cydraddoldeb a goblygiadau o ansawdd yn cael eu hystyried.</p>	
<p><b>Penderfyniad:</b></p>	<p>Dylid <b>nodi'r</b> adroddiad.</p>	
<p><b>30/23</b></p>	<p><b>ADRODDIADAU CRYNODEB GAN GRWPIAU YMGYNGHOROL Y BWRDD IECHYD</b></p>	

	<b>Nodwyd a derbyniwd</b> adroddiad yn nodi crynodebau o gyfarfodydd grwpiau ymgynghorol y bwrdd iechyd.	
<b>31/23</b>	<b>MATERION LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL</b>	
	<b>Derbyniwyd a nodwyd</b> adroddiad ar faterion llywodraethu corfforaethol.	
<b>32/23</b>	<b>ADRODDIAD PERFFORMIAD</b>	
	<p><b>Derbyniwyd</b> yr adroddiad perfformiad.</p> <p>Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Darren Griffiths sylw at y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cafodd 171 o achosion Covid eu cofnodi ar hyn o bryd;</li> <li>- Roedd gwelliant o 0.2% wedi bod yn amlwg yn absenoldebau staff;</li> <li>- Roedd y targed rhyddhau ambiwlans coch wyth munud wedi gwella i 55%;</li> <li>- Roedd yr oedi wrth drosglwyddo cleifion mewn ambiwlansys ar 388 ar gyfer y mis presennol, gyda'r potensial i gyrraedd 500, ond roedd gwelliant yn dechrau cael ei weld oherwydd y rhaglen ailgynllunio gwasanaethau meddygol aciwt;</li> <li>- Gwelwyd newid sylweddol yn yr arhosiadau brys pedair awr i 73%;</li> <li>- Roedd yr ôl-gronaid canser bellach wedi gwella i 535 o achosion.</li> </ul>	
<b>Penderfyniad:</b>	- Dylid <b>nod</b> i'r adroddiad.	
<b>33/23</b>	<b>ADRODDIAD CYLLID</b>	
	<p><b>Derbyniwyd</b> yr adroddiad cyllid.</p> <p>Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Darren Griffiths sylw at y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- £4m oedd sefyllfa diffyg cronus ar gyfer y flwyddyn hyd yma;</li> <li>- Parhaodd gwariant banc ac asiantaeth i fod yn her ond gan ddiolch i recriwtio tramor, roedd 232 o nyrsys ychwanegol yn y system erbyn hyn, gyda 350 wedi'u targedu, felly gellid mynd i'r afael â gwariant asiantaeth premiwm;</li> </ul>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Rhagwlewyd y byddai'r sefyllfa gyfalaf yn adennill a bod dadansoddiad manylach wedi'i rannu â'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid. Cafwyd llithriad arian gwerth £4m, a oedd wedi ariannu datrysiadau digidol ac ardal uwchben yr Uned Meddygol Acíwt newydd yn Ysbyty Treforys ar gyfer cleifion llawdriniaethol orthopedig cymhleth;</li> <li>- Roedd y dyraniad arian a addawyd bellach wedi'i dderbyn a rhagwelwyd y gellid rheoli'r sefyllfa hon bellach;</li> <li>- Roedd rhagolwg cytbwys o'r tu allan yn dal i gael ei adrodd ar gyfer diwedd y flwyddyn ac aethpwyd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r risgiau, gan fod y rhain ynghylch arian Covid, a oedd wedi'i gytuno ers hynny.</li> </ul> <p>Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol:</p> <p>Holodd Mark Hackett y lefel o hyder bod Ysbyty Treforys yn gallu cyflawni ei raddfa redeg darged. Ymatebodd Darren Griffiths fod yna newidadau sylweddol yn y pythefnos diwethaf wedi'u hategu gan ddadansoddiad ariannol cryf i gydnabod cyfleoedd. Mewn cyfarfod gydag uwch dîm y safle, roedd parodrwydd wedi bod i gyflawni'r cynllun gwella. Roedd gwaith i wneud o hyd ond roedd sicrwydd bod y Grŵp Gwasanaeth yn gweithio mewn gwell aliniad gyda'r cynllun gwella. Roedd trefniadau adrodd amgen bellach yn cael eu rhoi ar waith i ddwyn y tîm i gyfrif yn amlach. Dywedodd Reena Owen fod y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid wedi cynnal trafodaeth fanwl ynglŷn â graddfa redeg Ysbyty Treforys a herio a oedd y sgôr risg yn ddigonol yn 16. Cytunodd aelodau iddi aros fel y mae ond byddai'n cael ei hadolygu eto pan fydd y pwyllgor yn derbyn y rhestr risg nesaf.</p> <p>Darparodd Mark Hackett sicrwydd yr eid i'r afael â'r bwloch £8m yn y targed arbedion oherwydd cynlluniau nad ydynt yn rheolaidd, gan na allai hyn greu pwysau cost ar gyfer 2023-24. Bydd angen i hyn gael ei gyflawni yn 2022-23.</p> <p>Nododd Emma Woollett fod cael cynllun ariannol cadarn ar waith yn beth da, ond byddai ei gyflwyno'n dibynnu ar staff ar bob lefel, felly roedd yn bwysig cael gafael ar gyllid ar draws pob maes.</p>	
<b>Penderfyniad:</b>	Dylid nodi'r adroddiad.	
<b>34/23</b>	<b>CYFARFODYDD GYDA PHARTNERIAID Y GIG</b>	
	<b>Derbyniwyd a nodwyd</b> crynodeb o gyfarfodydd gyda phartneriaid y GIG.	

<b>35/23</b>	<b>CYFARFODYDD GYDA PHARTNERIAID ALLANOL</b>	
	<b>Derbyniwyd a nodwyd</b> crynodeb o gyfarfodydd gyda phartneriaid allanol.	
<b>36/23</b>	<b>UNRHYW FUSNES ARALL</b>	
	Ni chafwyd unrhyw fusnes arall a daethpwyd â'r cyfarfod i ben.	
<b>37/23</b>	<b>DYDDIAD CYFARFOD NESAF Y BWRDD</b>	
	Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fyddai Dydd Iau, 30 Mawrth 2023.	

Daethpwyd y cyfarfod i ben am: 3.45pm